YSGOL GYMRAEG SANT CURIG

# Cylchlythyr y Gwanwyn 2024



# Neges wrth y Pennaeth



Diwedd tymor arbennig arall yma yn Sant Curig! Tymor byr ond tymor hynod brysur! Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl staff, plant, rhieni a llywodraethwyr Sant Curig am eu holl waith caled yn ystod y tymor yma. Gobeithio y gewch amser i ymlacio dros y Pasg.

Mae ein plant arbennig wedi gweithio'n hynod o galed ymhob dosbarth yn ystod y tymor ac wedi gweithio'n ddiflino i siarad yn Gymraeg. Gwelwyd llwyth o themâu cyffrous a digwyddiadau diddorol ar draws yr ysgol - diolch i bawb am eu cyfraniad. Gallwch ddarllen mwy amdanynt yn y cylchlythyr.

Braf oedd gallu croesawu rhieni i wylio gwasanaethau dosbarth yn ystod y tymor. Fe ddaeth rhieni blynyddoedd derbyn, blwyddyn 1, 2, 5 a 6 mewn i ddathlu gyda'r plant. Roedd yn hyfryd cael eich cwmni yn ystod y gwasanaethau yma ac i dreulio bach o amser gyda'r plant yn dilyn y gwasanaethau.

A beth am berfformiadau disgyblion yr ysgol ar lwyfan Eisteddfod yr Urdd eleni? Gwych! Diolch i'r plant a wnaeth canu, adrodd, a dawnsio. Rydym yn falch iawn o bob un ohonoch!

Yn olaf, gobeithio y cewch chi, ein teuluoedd cefnogol, Pasg hapus ac edrychwn ymlaen at eich croesawu yn ôl atom ar yr 8fed o Ebrill. Mae'r staff eisoes wedi bod yn cynllunio gweithgareddau cyffrous ar gyfer tymor nesaf!

Pasg Hapus i holl #DeuluCurig.

# A message from the Headteacher

*Here we are at the end of another special term here at Sant Curig! A short but a very busy term! I would like to take this opportunity to thank all the staff, children, parents and governors of Sant Curig for all their hard work during this term. Hopefully you'll get a chance to relax over the Easter break.*

*Our children have worked extremely hard in every class during the term and have worked tirelessly to speak in Welsh. Lots of exciting themes and interesting events were seen across the school - thanks to everyone for their contribution. You can read more about them in the newsletter.*

*It was nice to be able to welcome parents to watch class assemblies during the term. Parents of reception years, year 1, 2, 5 and 6 came in to celebrate with the children. It was lovely to have your company during these assemblies and to spend a little time with the children following their performance.*

*And what about the school pupils' performances on the Urdd Eisteddfod stage this year? Fantastic! Thank you to the children who sang, recited and danced. We are very proud of all of you!*

*Finally, I hope you, our supportive families, have a happy Easter and we look forward to welcoming you back to us on the 8th of April. The staff have already been planning exciting activities for next term!*

*Happy Easter to all the #CurigFamily.*



# Gwybodaeth bwysig !



**Newidiadau i ailgylchu yn y gweithle**

Daw'r gyfraith newydd i rym ar **6 Ebrill 2024**. Mae'n golygu y bydd angen i holl weithleoedd, fel busnesau, y sector cyhoeddus/ysgolion, ac elusennau, wahanu eu deunyddiau ailgylchadwy yn yr un modd ag y gwnaiff y rhan fwyaf o aelwydydd eisoes.

Fel ysgol rydym yn croesawu'r newidiadau newydd hyn a byddwn yn sefydlu gorsafoedd ailgylchu yn ein hysgol er mwyn i'n plant a'n staff allu gwahanu ac ailgylchu eu holl sbwriel yn ofalus.

O ran ymwelwyr ar dir yr ysgol, **mae gennym finiau o amgylch yr ysgol ond ar gyfer gwastraff cyffredinol yn unig y mae'r rhain, ac felly gofynnwn i chi beidio â rhoi unrhyw eitemau ailgylchadwy yn ein biniau allanol** (e.e. plastig, cardbord, papur, gwydr neu eitemau bwyd). Gofynnwn yn garedig i chi fynd ag unrhyw eitemau ailgylchadwy adref gyda chi i gael gwared arnynt yn gyfrifol.

Mae hyn yn mynd i fod yn anodd i bob un ohonom i ddechrau, ond gyda'n gilydd gallwn wneud gwahaniaeth mawr a lleihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

# Important information!

***Changes to workplace recycling***

*The new law comes into effect on **6 April 2024**. It means all workplaces such as businesses, public sector/schools and charities will need to separate their recyclable materials in the same way most households already do.*

*As a school we embrace these new changes and will be setting up recycling stations within our school for our children and staff to carefully separate and recycle all their rubbish.*

*With regard to visitors on school premises, **we do have bins located around the grounds but these are for general waste only and therefore we ask that you do not place any recyclable items in our bins** (e.g. plastic, cardboard, paper, glass or food items). We kindly ask that you take any recyclable items home with you to dispose of responsibly.*



*This is going to be difficult for us all initially, but together we can make a big difference and reduce the amount of waste that goes to landfill.*

# Blwyddyn 6







Am dymor prysur yn astudio hanes Cymru a Phatagonia. Ein cwestiwn ymholi yn ystod y tymor oedd, 'Beth sydd yn ac wedi rhoi Cymru ar fap o'r byd?'. Dechreuon y tymor gan ymchwilio i ddau ddyn pwysig yn hanes sefydliad y Wladfa, sef Michael D Jones ac Edwin Cynrig Roberts. Dysgom am y daith i Batagonia ar y Mimosa ar yr 28ain o Orffennaf, 1865. Gan ddefnyddio eu holl wybodaeth, aeth y disgyblion ymlaen i greu gwefan eu hunain gan ddefnyddio Google Classrooms. Rydym hefyd wedi mwynhau darllen y llyfr, 'Twm Bach ar y Mimosa' gan gwblhau tasgau cysylltiedig â chasglu gwybodaeth am ba mor galed oedd y daith. Defnyddiodd y disgyblion eu gwybodaeth i ddangos empathi tuag at y Cymry. Ysgrifennwyd ymson fel aelod o'r Wladfa yn gadael dociau Lerpwl am y daith hir, a chymerodd wyth wythnos, i Batagonia. Roedd ymweliad y Parchedig Eirian Wyn Lewis yn gyffrous i bawb a rhoddwyd sbardun i ni yrru e-byst at ddisgyblion yn Ysgol y Gaiman, ysgol Gymraeg yn y Gaiman, ym Mhatagonia.
Edrychom ar ddarn o gelf 'Melin Tregwynt' gan astudio'r elfennau celf cyn mynd ati i greu darn o gelf yn debyg i'r patrymau. Gwrandawom ar gân i Gymru gan Dylan Morris a chyfansoddwyd gan Alistair James o'r enw 'Patagonia'. Gwrandawom ar yr eirfa cyn astudio'r gerddoriaeth a'i gymharu gyda cherddoriaeth samba sydd yn gysylltiedig gyda De America. Cafodd y disgyblion hwyl yn dawnsio i'r gerddoriaeth.
Roedd gwaith caled o'n blaenau wrth ymarfer ein gwasanaeth a dathliad. Braf oedd cael dathlu'r gwaith caled gyda'r rhieni ac aelodau o'r teulu yn ystod ein tŷ te, gan efelychu'r rhai sydd i weld ym Mhatagonia hyd heddiw. Diolch yn fawr i chi gyd am fynychu, wnaethom wir fwynhau perfformio a dathlu gyda chi.






*Another busy term. This term we studied the history of Wales and Patagonia. Our enquiry question was 'What has and is putting Wales on the map of the world?'. We started the term researching into two important men in the history of the establishment of the Colony in Patagonia, named Michael D Jones and Edwin Cynrig Roberts. We learned about the journey to Patagonia, on the Mimosa, on the 28th of July, 1865. Using all their knowledge, the pupils created their own websites using Google Classrooms. We have also enjoyed reading the book 'Twm Bach ar y Mimosa'; completing tasks related to the book and gathering information about how difficult the journey was for many Welsh people. The pupils used their knowledge to show empathy towards the Welsh. The pupils wrote a monologue as a member of the Colony leaving Liverpool docks on the long journey, which took eight weeks, to Patagonia. Reverend Eirian Wyn Lewis's visit was exciting for everyone as he has seen first hand the bond between Wales and Patagonia. He recommended that we created a relationship with a primary school in Gaiman, Patagonia. The pupils wrote emails as we sent them to pupils in Ysgol y Gaiman.*
*We looked at a piece of art from 'Melin Tregwynt' studying the different art elements before creating a piece of art similar to the patterns seen. Listening to a song by Dylan Morris, and composed by Alistair James, called 'Patagonia' was a task the pupils enjoyed as the samba beats couldn't keep the children to their seats. We listened to the vocabulary before studying the music.*
*There was hard work ahead of us, as we practiced our assembly and celebration. We enjoyed celebrating our hard work with all parents and family members during our Welsh tea room, imitating those that can be seen in Patagonia to this day. Thank you very much for attending, we really enjoyed performing and celebrating with you.*

# Derbyn / Reception

Y tymor yma rydym wedi bod yn dysgu am Gymru ac wedi mwynhau dysgu mwy am ein ffrind Sioni Rhew!

*This term we have been learning about the cold weather in Wales. We have enjoyed learning more about our friend Jack Frost!*







Cawsom lawer o hwyl yn ystod ein sesiwn dawns gyda Lara Ward.

*We had lots of fun during our dance session with Lara Ward.*





Dysgom am Gymru a'n diwylliant wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Buom yn brysur yn dysgu stori Dewi Sant ar ffurf Pie Corbett. Roedden ni'n wych!

*We have been learning about Wales and our culture whilst celebrating St David's Day. We were brilliant at retelling the story by using Pie Corbett!*






# Siarter Iaith




Dydd Santes Dwynwen - Cyfle yma i'r plant ddanfon neges o gariad neu gyfeillgarwch at bobl bwysig yn ein bywydau. Penderfynodd yr Ysgol greu cardiau Santes Dwynwen at ddeiliaid Cartrefi Preswyl cyfagos ar y dydd. Diolch i bawb.

Llwyddom i ddathlu Diwrnod Miwsig Cymru eto gyda gweithgareddau arbennig ar draws yr ysgol. Rydym wedi penderfynu chwarae miwsig Cymraeg yn y prif goridor er mwyn cyflwyno amrywiaeth o ganeuon ac artistiaid Cymreig i'r plant.

Roedd Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod arbennig iawn eto ac roedd gweld y plant unai yn gwisgo dillad coch neu draddodiadol yn wych a chafwyd llawer o hwyl yn dathlu. Gofynnwyd i ni ail ymweld ag un Cartref Preswyl lleol er mwyn cyflwyno amrywiaeth o ganeuon neu lefaru traddodiadol. Roedd y preswylwyr wedi mwynhau ein hymdrechion yn fawr.

Ysgol wedi bod yn brysur yn paratoi unigolion / grwpiau sydd wedi cystadlu  drwy gyfrwng llefaru neu ganu gan gofio dawnsio unigol neu grŵp yn yr Eisteddfodau diweddar. Diolch yn fawr i holl rieni a staff wrth ymarfer a pharatoi a chefnogi'r plant eleni.

Edrychwn ymlaen at dymor newydd yn llawn gweithgareddau pwysig wrth i ni fentro am Wobr Aur o ran Siarter Iaith.

*Dydd Santes Dwynwen allowed us to celebrate where the children were given opportunities to send a message of love or friendship. This year the school decided to send cards to our neighbours at two local Residential Care Homes celebrating our patron saint of love. The team enjoyed the time sharing the cards with residents and staff. Big thanks to all the who created cards to share with the residents who were so appreciative.*

*We also celebrated Dydd Miwsig Cymru on the day and enjoyed Welsh music in all the classes. We have now decided to play Welsh music from various artist/performers in the main corridor throughout the day.*

*St David's Day is always an important and special occasion as we celebrate our culture and identity. The children looked amazing in their red or traditional costumes. The school also decided to share the day with a local Residential Care Home and provided an afternoon performing Welsh songs and poems. The Residents were very grateful.*

*Members of the school have been busy during the term preparing to perform in several competitions such as recital, singing and individual/group dancing during the recent regional rounds of the Eisteddfod. A huge thanks to parents, staff for preparing and supporting the children this year.*

*We look forward to a new term full of exciting opportunities as we consider applying for the Gold Award for our commitment to the Welsh Language Charter this year.*










# Blwyddyn 5



Cafodd Blwyddyn 5 lu o brofiadau hyfryd unwaith eto yn ystod y tymor diwethaf. Ein thema ar gyfer y tymor oedd 'Cymry, Pell ac Agos' gyda ffocws ar lyfr 'Ta-Ta Tryweryn.' Roedd hyn yn gyfle gwych i astudio hanes Capel Celyn. Cawsom gyfle i weithio ar nifer o weithgareddau cyffrous gan gynnwys erthygl papur newydd a llythyr ffurfiol. Roedd cyfle hefyd i gynnal protest ein hunain ar faes yr Ysgol ac ymestyn ein sgiliau Celf. Cawsom hefyd gyfle i gynnal ymholiad ynysu.  Roedd nifer o ddathliadau yn ein hanner tymor cyntaf, rydym wedi mwynhau Diwrnod Diogelwch ar y Wê,  Wythnos Iechyd Meddwl Plant a Diwrnod Santes Dwynwen.

Yn ystod yr hanner tymor diwethaf, cawsom gyfle i ysgrifennu araith yn ogystal â stori ein hunain, gan gymryd ysbrydoliaeth o stori 'Merch y Llyn.' . Roedd cyfle arbennig i gydweithio efo cwmni Theatr Iolo i ysgrifennu sgript a Chlwb Rygbi Caerdydd ar gyfer sesiynau iechyd a lles. Cawsom lawer o hwyl yn dathlu diwrnod Dewi Sant, Diwrnod y Llyfr a Diwrnod Trwynau Coch. Roedd pawb hefyd wedi mwynhau ein trip i Amgueddfa Cymru i gymryd rhan yng ngweithdy Celf 'Cynefin.'  Mae'r plant wedi mwynhau paratoi ar gyfer ein gwasanaeth drwy ganu a pherfformio. Edrychwn ymlaen at dymor prysur arall yn dilyn gwyliau'r Pasg!

*Year 5 enjoyed a range of wonderful experiences within our last term. Our theme for the term was 'Welsh, far and close' which focused on the book 'Ta-Ta Tryweryn' which was an excellent opportunity to study the history of Capel Celyn. We enjoyed a number of exciting activities which included writing our own newspaper article and formal letter. We also had the opportunity to recreate our own protest on the school yard and develop our Art skills. We were also able to investigate the effect of insulation in our Science project. There were many celebrations in our first half term, including Internet Safety Day, Children's Mental Health day and 'Diwrnod Santes Dwynwen.'*

*In our second half term, we were able to write our own speech and a story, taking influence from the 'Merch y Llyn' story. There was a fantastic opportunity to work with Iolo Theatre Company and write our own script as well as with Cardiff Rugby for our health and wellbeing sessions. We also had lots of fun celebrating St David's Day, World Book Day and Red Nose Day. Everyone also enjoyed our trip to the National Museum to take part in the 'Habitat' art work shop. Our pupils have enjoyed preparing for our assembly by performing and singing. We look forward to another busy term following the Easter holiday!*



# Blwyddyn 2



Fe wnaeth blwyddyn 2 ddechrau'r tymor yn ymarfer ar gyfer ein gwasanaeth Santes Dwynwen. Fe wnaethon ni fwynhau perfformio i'n teulu a'n ffrindiau a rhannu sut rydyn ni'n dangos cariad i'n gilydd. Fe wnaethon ni ddysgu mwy am Santes Dwynwen yn y dosbarth hefyd, a defnyddio'r stori i'n helpu i ddatblygu'n sgiliau darllen, sillafu, atalnodi a'n creadigrwydd.

*Year 2 started the term practising for our Santes Dwynwen assembly. We enjoyed performing for our family and friends and sharing how we show love to each other. We also learnt more about Santes Dwynwen in class, and used the story to help us develop our reading, spelling, punctuation and creativity skills.*



Nid mesur yw'r unig sgil rhifedd rydym ni wedi bod yn datblygu'r tymor yma - rydym ni hefyd wedi bod yn creu patrymau rhif, ymarfer lluosi a defnyddio cloc.

*Measuring is not the only numeracy skill we've been developing this term - we've also been creating number patterns, practising multiplication and learning how to use a clock.*



Rydym ni wedi bod yn lwcus iawn o gael Rebecca Warner yn ymweld â ni'n wythnosol i gynnal prosiect sydd wedi ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae Rebecca wedi ein helpu i ddatblygu ein sgiliau cerddorol ac rydym ni wedi cyfansoddi sawl can ein hunain! Ar yr wythnos olaf, fe wnaeth Dean Yhnell ymuno â Rebecca i ddysgu ni sut i fît focsio!

*We have been very lucky to have Rebecca Warner visit us every week to carry out a project that has been funded by the Arts Council of Wales. Rebecca has helped us develop our musical skills and we have composed several of our own songs! On the last week, Dean Yhnell joined Rebecca to teach us how to beatbox!*



Rydym ni hefyd wedi cael ymweliad gan y frigâd dân, wedi mwynhau sesiwn ddawns arbennig gyda Lara Ward ac wedi dathlu diwrnodau arbennig fel Diwrnod y Llyfr a Diwrnod Miwsig Cymru. Mae wedi bod yn dymor prysur iawn ac rydym ni'n ddiolchgar iawn i chi fel rhieni am bob cefnogaeth. Pasg hapus i chi gyd!


*We have also had a visit from the fire brigade, enjoyed a special dance session with Lara Ward and celebrated special days such as World Book Day and Welsh Music Day. It has been a very busy term and we are very grateful to you as parents for all your support. Happy Easter to you all!*








# Sêr y Tymor



**CYMREICTOD**

*Derbyn - Caleb G a Nansi D*

*1 - Morwenna M a Leo L*

*2 - Tommy-Lee P  ac Ezra Ll*

*3 - Florence G ac Ioan W*

*4 - Amelia C ac Isabelle W*

*5 - Esme WR ac Astrid P*

*6 - Corey L ac Oliver G*



**YMDRECH**

*Derbyn - Leo S a Spencer W*

*1 - Elijah H a Freya W*

*2 - Cassie W ac Eira N*

*3 - Rosa M ac Eleri L*

*4 - William Mc ac Elijah W*

*5 - Milly O a Halle-Rose r*

*6 - Macsen H a Sophia WH*



**CYFEILLGARWCH**

*Derbyn - Alys M a Willow B*

*1 - Faye J a Georgie B*

*2 - Maxim CD a Teddie A*

*3 - Lara T ac Isabelle W*

*4 - Ava-May T a Carmela M*

*5 - Ethan M a Moli M*

*6 - Lucas M a Dominic F*

# Meithrin / Nursery

Tymor byr ond llwyddom i wasgu cymaint o ddathliadau i mewn.

Cawson gyfle i groesawi 17 o blant bach hyfryd i'n dosbarth cyn-feithrin ac maen nhw wedi ymgartrefu'n wych! Diolch i blant bach meithrin pur am fodeli ymddygiad arbennig iddynt.

Buom yn dathlu diwrnodau pwysig iawn i ni yng Nghymru megis Santes Dwynwen, Dydd Miwsig Cymru a Dydd Gŵyl Dewi. Cafodd y plant cyfleodd i baratoi, coginio a blasu Cawl, adeiladu cestyll a llunio trwy arsylwi Cennin Pedr.

Buom yn dysgu am Flwyddyn Newydd Tsiena a chymerid rhan yn ein gorymdaith Dawns y Ddraig o amgylch yr ysgol. Daeth y dosbarth meithrin prynhawn o hyd i froga ar y maes a symudodd hwn y dysgu ar drywydd gwahanol i ddysgu am gylchred bywyd y broga.

Mwynheuon ni ein gorymdaith Pasg a'r cyfle i ddathlu gyda'n rhieni yn yr ysgol.










*A short term but we have managed to squeeze in as many celebrations as possible.*

*We had the opportunity to welcome 17 new children to our pre-nursery class and everyone has settled in amazingly! Thank you to the pure nursery class children for modelling such wonderful behaviour to them.*

*We celebrated some very important days for us in Wales, Santes Dwynwen, Welsh Music Day and Saint David's Day. The children had the opportunity to prepare, cook, taste and give their opinion on the taste of Cawl, build castles and experience the still life drawing of daffodils.*

*We learned about the Chinese New Year and partook in a Dance of the Dragon parade around the school. The afternoon nursery class discovered a frog on our yard and this then took our learning on the path of the life cycle of a frog.*

*We enjoyed our Easter bonnet parade and the chance to celebrate with our parents in school.*

# Blwyddyn 3

Hoffem ddiolch i'r plant am ei hymdrechion tymor yma gydag ein thema Dreigiau Direidus.

Fe wnaethom fwynhau creu, disgrifio ac arlunio dreigiau amrywiol yn ystod y tymor. Darllenom nofel 'The Boy Who Grew Dragons' fel dosbarth a chafwyd llwyth o ysbrydoliaeth a syniadau ar gyfer ein gweithgareddau thema a llythrennedd.  Fe wnaethom fwynhau creu cardiau Santes Dwynwen ar gyfer aelodau o gartrefi gofal lleol yn fis Ionawr.

Yn ddiweddar rydym wedi mwynhau dysgu mwy am wlad Tsieina. Rydym wedi bod wrth ein bodd yn darganfod ffeithiau am y wlad a chreu ffeil ffeithiau gan hefyd defnyddio ein sgiliau creadigol i greu lluserni a dreigiau Tsieniaidd.

Rydym wedi mwynhau dathlu diwrnodau arwyddocaol yn ystod y tymor fel Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod y llyfrau lle gwn aethom fwynhau cymryd rhan mewn gweithdy ar-lein gyda'r arlunydd Sion Tomos Owen. Rydym yn edrych ymlaen at wyliau Pasg ac i ddychwelyd am dymor arall llawn hwyl a sbri.

Yn dymuno Pasg Hapus i deuluoedd Blwyddyn 3 i gyd.

*We would like to thank the children for their efforts during the term with our theme Dragons.*

*We have enjoyed creating, describing, and drawing various dragons during the term.  We thoroughly enjoyed reading the class novel 'The Boy Who Grew Dragons' where we have gathered lots of inspiration for various thematic and literacy tasks. We enjoyed making Santes Dwynwen cards for the residents of local care homes.*

*Recently we have enjoyed learning about China. We have loved researching facts using various sources and creating fact files and also using our creative skills to make Chinese dragons and lanterns.*

*We enjoyed celebrating notable days such as St Davids Day and World Book Day where we enjoyed a virtual workshop lead by the artist and illustrator Sion Tomos Owen. We look forward to the Easter holidays and returning for more fun next term.*

*We wish all the families of Year 3 a happy Easter.*













# Dyddiadau / Dates

- Y diwrnod cyntaf nol i'r plant ar ôl Pasg yw **Dydd Llun, yr 8fed o Ebrill**
- Gŵyl y Banc - Dydd Llun y 6ed o Fai
- Hanner Tymor - 27/05/24 - 30/05/24
- Diwrnodau HMS - Dydd Llun 3ydd o Fehefin, Dydd Mercher 3ydd o Orffennaf, Dydd Llun 22ain o Orffennaf

- *First day back for the children after Easter is **Monday, April 8th***
- *Bank Holiday - Monday 6th of May*
- *Half Term - 27/05/24 - 30/05/24*
- *INSET Days - Monday 3rd of June, Wednesday 3rd of July, Monday 22nd July*

# Diwrnod Trwynau Coch / Red Nose Day

Diolch i bawb a helpodd i godi arian tuag at Comic Relief eleni.

Fel ysgol, codwyd £243.52.

*Thanks to all who helped raised money for Comic Relief this year.*

*As a school, we raised £243.52.*












# Blwyddyn 1



Dyma ni ar ddiwedd tymor prysur a hwyl arall ym mlwyddyn 1!

Ble i ddechrau? Ein cwestiwn mawr ar gyfer y tymor yma oedd ‘Sut ydy straeon a hwiangerddi Cymraeg yn llywio ein dychymyg?’. Rydym wedi bod yn brysur iawn yn darllen a dysgu'r stori ‘Rydyn ni’n mynd i hela arth’. I helpu ni dod a’r llyfr i fyw, roedden ni’n lwcus iawn i fynd ar drip i Ganolfan y Mileniwm i wylio’r sioe yn fyw a chawsom ni amser gwych! Rydym wedi cyflwyno Llun Lles i’r dosbarthiadau ar fore dydd Llun i helpu’r plant ymlacio ar ôl eu penwythnosau prysur. Mae’r plant wedi mwynhau’r gweithgareddau amrywiol o greu cebabs ffrwyth, mynd am dro neu chwarae efo swigod. Yn ogystal â Llun Lles, rydym hefyd wedi cyflwyno sesiynau Dathlu a Darganfod ar ddydd Gwener i ymestyn gwybodaeth y plant. Wnaeth y plant mwynhau dysgu am Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi a chael y cyfle i ysgrifennu rhifau Tsieineaidd a thrio pice ar y maen.





Ers hanner tymor rydym wedi ymgolli ein hunain yn ymarferion ein gwasanaeth gan ddysgu llwyth o ganeuon newydd, ni’n siŵr eich bod chi wedi clywed nhw ar ailadroddiad yn y tŷ. Rydym hefyd wedi dysgu llwyth o hwiangerddi Cymraeg a chreu celf yn seiliedig arnyn nhw. Wnaethom fwynhau croesawu chi i wylio gwasanaeth Blwyddyn 1.





Hoffwn ddymuno Pasg Hapus i bawb, edrychwn ymlaen at mwy o hwyl ac anturiaethau yn nhymor yr Haf!

*Here we are at the end of another fun term in year 1!*

*Where to start? Our big question for this term was, ‘How do Welsh stories and rhymes shape our imagination?’. We have been very busy reading and learning the story ‘We’re going on a bear hunt’. To help bring the story to life, we were very lucky to go on a trip to the Wales Millennium Centre to watch the show live, and we had a great time! On Monday mornings, we have introduced Mindful Monday to the classes to help the children relax after their busy weekends. The children have enjoyed the various activities, including creating fruit kebabs, going on walks, and playing with bubbles. As well as Mindful Monday, we have also introduced Discover and Celebrate sessions on a Friday to extend the children's knowledge. The children enjoyed learning about Chinese New Year and St. David’s Day, having the chance to write numbers in Chinese and trying Welsh cakes.*









*Since half term, we have immersed ourselves in our assembly practices by learning lots of new songs; we’re sure you’ve heard them on repeat in your house. We have also learned Welsh  nursery rhymes and made art based on them. We enjoyed welcoming you to watch Year 1’s assembly.*

*We would like to wish you all a happy Easter, and we look forward to more fun and adventures in the summer term!*











# Blwyddyn 4





Mae blwyddyn 4 wedi mwynhau ymgolli ym myd llenyddiaeth y tymor yma ac wedi gwir ymgysylltu gyda'r thema, 'Lliwio ein byd â llenyddiaeth'. Rydym wedi joio teithio i fyd dychymyg Roald Dahl ac wedi datblygu ein hochr mentrus a chreadigol yn fawr. Uchafbwyntiau'r tymor i ni oedd ysgrifennu sgript Ystafell Siocled Charlie, creu stop motion o'r ystafell siocled, dysgu am bersonoliaethau erchyll Mr a Mrs Twit a dysgu am a dylunio mewn steil yr artist Quentin Blake. Roedd diwrnod y llyfr yn gyfle gwych i wisgo fel cymeriadau o fyd llenyddiaeth ac roedd 'na ambell Mr Wonka yn ein plith. Roedd yn hwyl cael dylunio cloriau ein hoff lyfrau a chael gweld a dysgu am hoff lyfrau ein ffrindiau. Rydym wedi cael tymor prysur a hwylus. Dymunwn Pasg Hapus i chi gyd!






*Year 4 have enjoyed losing themselves in the world of literature this term and have really connected with the theme 'Lliwio ein byd â llenyddiaeth'. We have enjoyed travelling to the imaginary world of Roald Dahl and have greatly developed our creative side. The highlight of our term was writing our chocolate room script, creating a stop motion of our chocolate room, learning about the disgusting personalities of Mr and Mrs Twit and learning and drawing in the style of the artist Quentin Blake. World Book day was a fantastic opportunity to dress like characters from the world of literature and there were a few Mr Wonka's in our midst. It was great fun designing the book covers of our favourite books and learning about our friends' favourite books. We have had a very busy and fun filled term. We wish you all a Happy Easter!*

